# Hysbysiad Statudol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Rhondda Cynon Taf, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig sefydlu darpariaeth AAA yn Ysgol Gynradd Cwm-bach, Llangorse Road, Cwm-bach, Aberdâr CF44 0HS gan ddarparu 8 o leoedd ar gyfer disgyblion 3 - 7 oed (Cyfnod Sylfaen) mae gyda nhw anawsterau dysgu cymhleth. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion hyn ar 1 Medi 2019.

Mae 255 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae 272 o leoedd yn yr ysgol. 272 fydd nifer y lleoedd o weithredu'r cynlluniau.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 15 Mawrth 2019.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad – 13 Chwefror 2019

**Nodyn Esboniadol**

1. Mae gwella ansawdd addysg a chodi safonau yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu mynediad i fyd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.

2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddosbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella canlyniadau ar gyfer disgyblion agored i niwed.

3. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol ar safle ysgol hygyrch unigol.